

Adroddiad i'r	Cyngor
Dyddiad y Cyfarfod	13 Ebrill 2021
Aelod/Swyddog Arweiniol	Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Democrataidd
Awdur yr Adroddiad	Gary Williams, Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Democrataidd
Teitl	Trefniadau Ethol Cadeirydd ac Is-Gadeirydd yng Nghyfarfod Blynyddol y Cyngor

1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1. Y trefniadau ar gyfer ethol Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Cyngor ar gyfer y flwyddyn ddinesig 2021 / 2022.

2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1. Bydd Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Cyngor yn cael eu hethol yng Nghyfarfod Blynyddol y Cyngor ym mis Mai. Pwrpas yr adroddiad yw cytuno ar y Cadeirydd a'r Is-Gadeirydd arfaethedig ar gyfer blwyddyn ddinesig 2021 / 22 sydd i'w hethol yn ffurfiol yng Nghyfarfod Blynyddol y Cyngor.

3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1. Bod y Cyngor yn cytuno y Cadeirydd a'r Is-Gadeirydd arfaethedig ar gyfer y flwyddyn ddinesig 2021 / 2022 a fydd yn cael eu hethol yn ffurfiol yng Nghyfarfod Blynyddol y Cyngor ar y 18^{fed} Mai 2021.

4. Manylion yr adroddiad

- 4.1. Yn 2006, cytunodd y Cyngor gyda chasgliadau'r Panel Moderneiddio blaenorol, bod y weithdrefn flaenorol pan gynhelid cyfarfod y Cyngor i ystyried enwebiadau heb unrhyw sicrwydd go iawn ynglŷn â phwy fyddai'n cael eu hethol yn Gadeirydd ac Is-gadeirydd y Cyngor, yn tynnu oddi wrth urddas yr achlysur.
- 4.2. Penderfynodd y Cyngor y dylid mynd i'r afael â'r trefniadau ar gyfer ethol Cadeirydd ac Is-gadeirydd yn y cyfarfod a gynhelir cyn Cyfarfod Blynnyddol y Cyngor.
- 4.3. Is-Gadeirydd presennol y Cyngor yw'r Cynghorydd Alan James. Y traddodiad yw bod Is-Gadeirydd presennol y Cyngor yn cael ei ethol yn Gadeirydd y Cyngor ar gyfer y flwyddyn ddinesig nesaf.
- 4.4. Gofynnwyd i Arweinwyr Grŵp ddarparu enwebiadau ar gyfer rôl Is-gadeirydd y Cyngor ar gyfer y flwyddyn ddinesig nesaf ac roedd y Cynghorydd Christine Marston wedi ei henwebu.

5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

- 5.1. Nid yw rolau Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Cyngor yn effeithio'n uniongyrchol ar y blaenoriaethau corfforaethol.

6. Beth fydd y gost a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

- 6.1. Ar hyn o bryd telir cyflogau dinesig o £23,161 ac £18,108 i Gadeirydd ac Is-gadeirydd y Cyngor yn y drefn honno. Mae'r ffigurau hyn yn cynnwys y cyflog sylfaenol a delir i bob aelod.

7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Les?

- 7.1. Nid oes angen asesiad o effaith mewn perthynas â'r penderfyniad..

8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gyda Chraffu ac eraill?

8.1. Ymgynghorwyd ag Arweinwyr Grŵp o ran enwebu aelodau ar gyfer rôl Is-Gadeirydd y Cyngor.

9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

9.1. Nid oes unrhyw gostau ychwanegol yn deillio o'r argymhelliad hwn.

10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

10.1. Mae risg i enw da'r Cyngor os nad oes sicrwydd ynglŷn â phwy yw'r Cadeirydd ac Is-gadeirydd arfaethedig yng Nghyfarfod Blynyddol y Cyngor.

11. Pŵer i wneud y Penderfyniad

11.1. Adran 4 o Gyfansoddiad y Cyngor.

11.2. Adran 4 Deddf Llywodraeth Leol 1972.